# Perswadio

**Uned o Waith yn canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn:**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

**Dyniaethau:**

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

**Her!**

**Rwyt ti am berswadio dy ffrindiau, y gymuned neu arweinwyr y byd i gytuno gyda thi. Gelli:**

- gyflwyno dy ddadleuon ar lafar
- gyflwyno dy ddadleuon ar ffurf ddigidol
- gyflwyno dy ddadleuon ar ffurf ysgrifenedig neu ddyluniadau

## CYFLWYNIAD

Uned yn edrych ar ddulliau propoganda a pherswadio ddoe a heddiw.

Gellir dechrau drwy osod cwestiwn neu osodiad i'w drafod, megis:

- Ydyn ni'n dod o dan ddylanwad math o berswâd neu bropoganda heddiw?
- Ydy dod dan ddylanwad perswâd yn beth drwg? Pam?
- Trafod dulliau propoganda'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gellir edrych ar bosteri a sloganau.
- Cymharu gyda dulliau perswadio heddiw e.e. posteri ar gyfer hyrwyddo brechiadau Covid 19.
- Beth ydy rôl y cyfryngau cymdeithasol a dylanwadwyr heddiw? Sut y byddai hynny wedi effeithio ar fywydau mewn cyfnod arall o hanes?
- Beth am fod yn ddylanwadwr yn ystod y Rhyfel byd Cyntaf.

## GWEITHGAREDDAU POSIBL:

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Meddwl am bwnc diddorol, sy'n ennyn ymateb, yna defnyddio dulliau amrywiol i berswadio.

Gellir fod yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Edrych ar nodweddion iaith berswadio:

- Rhoi gosodiad
- Dylai fod yn y presennol
- Defnyddio iaith emosiynol gref a gor-ddweud
- Defnyddio cysyllteiriau rhesymu
- Dadleuon wedi eu nodi ac wedi ehangu arnynt
- Defnydd o gwestiwn rhethregol

### Y Dyniaethau

Edrych ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gymru ac yn arbennig ar fywydau bob dydd teuluoedd megis Yr Ysgwrn.

Gellir trafod y cwestiwn a wynebai nifer o deuluoedd y cyfnod: A ddylai fy mab/brawd/gŵr fynd i ryfel.

Gellir defnyddio papurau newydd y cyfnod i chwilio am:

- areithiau propoganda
- adroddiadau llysoedd am gael eithrio o fynd i ryfel
- cofianau
- llythyrau gan y milwyr o'r ffosydd.

Cymharu dulliau perswadio heddiw, gan edrych ar e.e. hysbysebio teledu, clipiau youtube, podlediadau, rôl dylanwadwyr.

## MEYSYDD ERAILL

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Creu posteri perswadio a phropaganda.
- Drama - creu golygfa o lys apêl o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Rhoi araith berswadio.
- Creu hysbyseb i gynnyrch neu wasanaeth arbennig.
- Creu dawns i berswadio neu recriwtio.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Defnyddio rhaglen ddigidol addas i greu hysbyseb propaganda.
- Recordio cyfweliadau rhwng milwr a swyddog recriwtio.

### Mathemateg a Rhif

- Edrych ar ffeithiau rhif y Rhyfel Mawr e.e. nifer y colledion, mesuriadau amser a phellter.
- Perswadio pobl i arbed dŵr. Mesur defnydd dŵr y dosbarth am gyfnod o amser.

### Iechyd a Lles

- Trafod teimladau megis, ofn, pryder, hiraeth a galar.
- Trafod a oedd gan bobl hawl rhoi pwysau ar bob i ymuno a'r fyddin.
- Pa mor effeithiol a moesol oedd y Bluen Wen. Oes enhreifftiau tebyg yn cael eu defnyddio heddiw?

### Geiriau'r Bardd

Daw'r geiriau o'r gerdd:

Cri y di-gartref

Af allan i wyneb y ddrycin
I grwydro hyd lethrau y bryn;
Disgynned y glaw ar fy nillad,
A chaned y gwynt fel y myn.

Af allan i wyneb y ddrycin,
'Does undyn yn unman a'm clyw;
'Does neb am oleuo fy llwybr
Ond y mellt yn ehangder Duw.

Af allan i wyneb y ddrycin
Hyd erwau y ddafad a'r oen;
Griddfanned y storm ar fynyddoedd
Fel darn o ogoniant poen.

Gorwyntoedd gwallgof y bryniau
Sy'n canu telynau o frwyn,
O cludwch, o cludwch fy ngriddfan
At rywun a wrendy fy nghŵyn.

***

Pan gaeo fy llygaid wrth farw
Goleued y mellt draws y glyn;
disgynned y glaw ar fynyddoedd
A chaned y gwynt fel y myn.

Hedd Wyn